HYSBYSIADAU 2016

Yr Ysgol Sul: Cynhelir Ysgol Sul y **plant am 10,** yn gyfochrog ag oedfa'r bore, ac Ysgol Sul i'r **oedolion am** 11.15. NI fydd Ysgolion Sul yn ystod gwyliau'r ysgolion

Oedfaon Gofalaeth: Mawrth 27 Gaerwen am 10 ac Ebeneser am 5
Mai 15 Rhos y Gad am 10 a 5 **Medi 11** Rhos y Gad am 10 a 5

Rhos y Gad ac Ebeneser yn addoli ar y cyd:
Ebrill 17; Mehefin 26; Gorffennaf 17; a Thachwedd 13 yn Rhos y Gad am 10 a 5
Awst 7, 14, 21, a 28 yn Ebeneser am 10.00. Dim oedfa am 5.
Rhagfyr 25 yn Rhos y Gad am 10.00. Dim oedfa am 5.
Croesewir aelodau Ebeneser i gyd addoli yn Rhos y Gad unrhyw amser.

Bob Bore Mercher (10-11.30) mae cyfle i bawb ddod am **sgwrs a phaned** yn Ystafell Cefnbach. Derbynnir rhoddion at Glefyd Parkinson a Changen Llanfairpwll o'r NSPCC

Babanod a'u Bugeiliaid (Clwb babanod) - clwb i rai dan 18 mis oed, gyda'i gofalwyr, sy'n cyfarfod **ar Fore lau rhwng 10.00 a 12.00**. Croeso i bawb gan gynnwys rhai sy ddim yn aelodau yn Rhos y Gad.

Paned Bore Sul: Trefnir paned yn y Festri ar derfyn Oedfa bore Sul fel a ganlyn: Chwefror 7 **(CCh)**; Mawrth 6 (**YSP)**; Ebrill 3 **(B)**; Mai 1 **(CCh);** Mai 15 **(YSP)** Mehefin 5(**B)**; Gorff.3**(CCh)**; Medi 4**(B)** a 11 **(YSP)**; Hydref 2 **(CCh)**; Tachwedd 6 **(B)** Rhagfyr 4 **(YSP)** Gofelir am y baned gan Gymdeithas y Chwiorydd **(CCh);** Ysgol Sul y Plant (**YSP)**; a'r Blaenoriaid **(B)** fel y nodir uchod. Derbynnir rhoddion fel ar fore Mercher.

Stondin Masnach Deg - DAN OFAL Criw y Caban - ar agor Sul CYNTAF o Chwefror, Ebrill, Mehefin, Medi, Tachwedd a Rhagfyr yn y Festri ar derfyn Oedfa'r bore ond HEFYD **derbynnir archebion** unrhyw amser - rhestr ar gael - dim ond cysylltu gydag un o griw Y Caban.

Cymdeithas y Chwiorydd - yn cyfarfod yn fisol ar yr ail brynhawn Mercher rhwng Hydref ac Ebrill am 2 o'r gloch.

Y Gymdeithas -yn cyfarfod yn fisol ar y nos lau cyntaf rhwng Hydref a Mawrth am 7.30

Y Clwb Darllen - yn cyfarfod yn fisol ar y nos Fercher cyntaf am 7.00

Gŵyl Diolchgarwch: Cynhelir dydd Sul a dydd Llun **Hydref 16 a 17**

Aelodaeth: Os bydd aelod heb bresenoli ei hun yn oedfaon yr eglwys a heb gyfrannu ati yn ystod **dwy** flynedd yn olynol, edrychir ar hynny fel arwydd o wrthgiliad, ac nad yw mwyach yn cyfrif ei hun fel aelod o'r Eglwys
Seddau: Yn rhydd. Unrhyw ymholiad i'r Blaenoriaid